**CC(3) AC 74**

**Response from Gwynedd Council**

**Ymateb Cyngor Gwynedd i Ymchwiliad i 'Hygyrchedd gweithgareddau celf a diwylliannol yng Nghymru' gan Bwyllgor Cymunedau a Diwylliant Cynulliad Cenedlaethol Cymru.**

**Cyflwyniad**

Mae Cyngor Gwynedd yn croesawu'r cyfle i ymateb i ymchwiliad Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 'hygyrchedd gweithgareddau celf a diwylliannol yng Nghymru'.

Mae Gwynedd yn Sir wledig gyda thua 120,000 o boblogaeth. Mae'r sir yn cynnwys ardal eang o Abergwyngregyn yn y Gogledd i Aberdyfi yn y De o Aberdaron yn y Gorllewin i gyffiniau'r Bala yn y dwyrain. Mae cynnal a darparu gwasanaethau o safon, ar gyllideb gymharol fach, mewn sir wledig a gwasgaredig fel hon yn sialens ynddo'i hunan.

Gwelir rôl allweddol i weithgareddau celf a diwylliannol yng Ngwynedd a chefnogir y meysydd hyn yn frwd o fewn y sir.

Mae'r Cyngor yn rhedeg Gwasanaethau Archifau, Amgueddfeydd a'r Celfyddydau (orielau, celfyddydau cymunedol a chelfyddydau perfformio) ac maent yn cyfrannu at amcan y Cyngor sef:

"Gwasanaethu trigolion y sir drwy wella ansawdd eu bywydau, diogelu a chryfhau cymunedau'r sir, a gwarchod ei chymeriad unigryw o ran iaith, diwylliant ac amgylchedd."

Ein nod o fewn Strategaeth Celfyddydol Gwynedd, 'Dyfodol y Celfyddydau yng Ngwynedd' yw: 'Gwella bywydau pawb yng Ngwynedd drwy'r celfyddydau gan annog safonau da ym mhob maes'. Er mwyn cyflawni'r nod hon mae bwriad i ganolbwyntio ar 3 maes – Cyrraedd pawb, safon da a dewis, a gwella bywydau.

Mae'r hinsawdd economaidd sydd ohoni a'r angen i addasu ein darpariaeth o wasanaethau a dod o hyd i arbedion yn ein gwneud i ystyried yn fanwl rôl Cyngor Gwynedd yn y dyfodol wrth ddarparu cyfleusterau a gwasanaethau celfyddydol a diwylliannol.

I'r perwyl hyn mae Gweithgor Gwella Treftadaeth a Chelfyddydau Cyngor Gwynedd yn cynnal ymchwiliad ar hyn o'r bryd i ddarpariaeth y dyfodol gyda'r nod o gyflwyno arbedion ac mewn rhai amgylchiadau syniadau darparu newydd a chyffroes ar gyfer gwasanaethau treftadaeth a chelfyddydol yng Ngwynedd. Bydd argymhellion ymchwiliad ein Gweithgor Gwella yn cael eu hadrodd i'r pwyllgorau perthnasol yn y Cyngor yn ystod misoedd cynnar 2011.

**Gellir crynhoi prif bwyntiau Cyngor Gwynedd i ymchwiliad Y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant fel a ganlyn:**

**Cwestiwn 1**

*A ydych yn credu bod Llywodraeth Cymru wedi cyflawni ei ymrwymiad i sicrhau bod 'profiadau diwylliannol o'r radd flaenaf ar gael i bawb, waeth beth yw eu cefndir neu ymhle y maent yn byw?' Pa mor effeithiol fu ei fuddsoddiad mewn gweithgareddau celfyddydol a diwylliannol o ran gwireddu'r amcan hwn?*

1. Gyda natur wledig Cymru mae cynnig 'profiadau diwylliannol o'r radd flaenaf ar gael i bawb, waeth beth yw eu cefndir neu ymhle y maent yn byw' yn rhywbeth hynod o anodd. Mae hyn hefyd yn wir am natur wledig ac ymylol Gwynedd sydd yn cynnig sialens parhaol i'r Cyngor. Gellir dadlau bod cynnig mynediad am ddim i Amgueddfeydd Cenedlaethol wedi galluogi mynediad i fwy o bobl i'r adnoddau hyn ond mae hyn ar draul rhai atyniadau a chanolfannau lleol sydd yn nodi bod hyn wedi effeithio ar niferoedd eu hymwelwyr hwy. Mae hyn yn creu sefyllfa ddyrys lle nad yw'n bosib i sefydliadau gwirfoddol / annibynnol / awdurdodau lleol gystadlu yn erbyn lleoliadau sy'n cynnig mynediad am ddim.

2. Mae Cymal wedi darparu cefnogaeth a chyngor ar gyfer amgueddfeydd yng Nghymru (fel wnaeth y Cyngor Amgueddfeydd o'u blaenau). Mae'r gefnogaeth hon wedi bod yn allweddol ac mae ymroddiad swyddogion y fewn Cymal gyda phrofiad ac arbenigedd yn y maes wedi bod yn angenrheidiol. Yn sicr maent wedi galluogi amgueddfeydd Cyngor Gwynedd i ddatblygu a chynnal eu gwasanaethau. Mae Cymal hefyd wedi cyhoeddi strategaeth ar gyfer y dyfodol. Yn sicr mae amrywiaeth o amgueddfeydd ar gael sy'n darparu gwasanaeth safonol, ar gyllidebau gymharol fach, i'r gymuned leol ac i ymwelwyr. Yr her fydd sut i barhau gyda hyn ac adeiladu ar y gwaith da sydd wedi ei wneud yn wyneb toriadau sylweddol yn y sector gyhoeddus – yn enwedig gan nad yw amgueddfeydd yn wasanaethau statudol. Byddai'n drueni pe bai'r buddsoddiad sydd wedi ei wneud hyd yma yn mynd yn wastraff - gallai safonau ostwng, gellid gweld lleihad yn y lefel gwasanaeth ac mewn rhai achosion, gallai rhai lleoliadau gau neu wasanaethau beidio a bodoli e.e. yng Ngwynedd mae bygythiad i'n Swyddogion Addysg Archifau ac Amgueddfeydd a fel y crybwyllwyd eisoes, mae'r Gwasanaethau Archifau, Amgueddfeydd a'r Celfyddydau yn cael eu hadolygu ar hyn o'r bryd.

3. O ran y Celfyddydau, mae canfyddiad yn lleol bod mwy o gefnogaeth yn cael ei roi i weithgareddau y tu allan i'r gogledd ac nad yw rhai cwmnïau yn dod i'r gogledd yn ddigon aml. Yn ogystal, gan bod rhai canolfannau / cwmnïau yn derbyn rhagor o arian mae eu cynyrchiadau yn mynd yn fwy sydd felly yn arwain at gostau uwch. Yn ei dro, mae hyn yn ei gwneud yn anoddach i lefydd llai fedru fforddio'r cynyrchiadau yma, ac felly mae'r rhain yn mynd i'r canolfannau mwy. Gellid dadlau bod hyn yn cael effaith negyddol ar ddarpariaeth mewn ardaloedd gwledig gan bod y celfyddydau yn mynd yn fwy cyfyngedig yn hytrach na chynwysedig.

4. O safbwynt Archifau mae'r arian a roddwyd i'r maes gan Lywodraeth Cymru wedi ehangu mynediad at gasgliadau drwy gatalogio o'r newydd ac ail wneud safle we Archifau Cymru sy'n fodd i hyrwyddo Gwasanaethau Archifau yng Nghymru. Credir bod hyn wedi ymestyn y ddarpariaeth archifyddol, ond wedi dweud hynny, dylid nodi bod y swm a ddyrannir i holl archifau Cymru yn gymharol fach wedi iddo gael ei rannu.

**Cwestiwn 2**

*Sut yn union mae lleoliadau celfyddydol a diwylliannol – gan gynnwys amgueddfeydd, llyfrgelloedd ac archifau – yn mynd ati'n weithredol i hyrwyddo mynediad, denu cynulleidfaoedd newydd ac annog pobl i gymryd rhan yn unol ag ymrwymiad Cymru'n Un a strategaethau Cyngor y Celfyddydau?*

Yng Ngwynedd rydym yn cyflawni hyn trwy wahanol ffyrdd. Mae'r rhain yn cynnwys:

1. Rhaglenni addysgol, estyn allan, cymunedol a gwaith partneriaeth ac aml asiantaeth e.e. mae Swyddog Datblygu Celfyddydau Cymunedol Cyngor Gwynedd yn cydweithio'n glos a Bwrdd iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar gynlluniau Celf mewn iechyd a Lles a "Mind" yn Amgueddfa ac Oriel Gwynedd. Mae cynlluniau eraill megis 'Criw Celf' yn mynd a phobl ifanc o amgylch gwahanol ganolfannau fel rhan o gynllun addysgol.

2. Targedu cynulleidfaoedd penodol; sicrhau bod ein gweithgareddau yn cael eu cynnwys mewn ymgyrchoedd cenedlaethol sydd â elfen marchnata / brandio cryf fel BBC Hanes y Byd; Noson Allan yn yr Amgueddfeydd; cydweithio gyda grwpiau yn y gymuned; defnyddio arddangosfeydd fel ysbrydoliaeth i weithdai. Rydym wedi derbyn grantiau gan Cymal tuag at yr elfennau yma e.e. cynllun datblygu cynulleidfa ; trefnu diwrnodau agored.

3. Fel y nodwyd eisoes, mae mynediad am ddim i'r amgueddfeydd cenedlaethol wedi creu disgwyliadau gan y cyhoedd bod pob amgueddfa yn rhad ac am ddim, er nad yw hyn bob tro yn wir. Yng Ngwynedd ni chodir tal mynediad yn Amgueddfa ac Oriel Gwynedd, ond codi'r tal mynediad yn Amgueddfa Lloyd George. Rhagwelir y bydd y pwysau cyllidol cynyddol sydd ar awdurdodau lleol yn cynyddu'r angen i ailedrych ar y ddarpariaeth yn lleol a chysidro dewisiadau i gynyddu incwm neu i wneud arbedion – e.e. codi tal mynediad i bob amgueddfa yn y sir, codi comisiwn am gyngor mewn gwasanaethau eraill, torri gwasanaethau ayb.

4. Mae'r gwasanaeth archifai yn cynnal y gweithgareddau canlynol sydd yn ran hollol naturiol o'r ffordd a'r ethos mae'r gwasanaeth wedi gweithredu erioed er mwyn hyrwyddo mynediad, denu cynulleidfaoedd newydd, ac i annog pobl i gymeryd rhan: cynnal cyrsiau blasu, rhoi sgyrsiau yn y gymuned, grwpiau amrywiol yn ymweld â'r Archifdai, cydweithio â grwpiau amrywiol, catalogau hyd at lefel eitem ar gael ar ein safle gwe, Swyddog Addysg sy'n ymweld â ysgolion ac sy'n creu pecynnau dysgu.

5. Mae cydweithio rhwng Gwasanaethau'r Cyngor yn elfen bwysig iawn yn y modd ehangir cyfleoedd i'r cyhoedd e.e. Archifau ac Amgueddfeydd; Uned Celfyddydau Cymunedol a'r Amgueddfeydd a'r Orielau.

6. Cefnogwyd y Gwasanaeth Llyfrgell a Gwybodaeth Gwynedd gan strategaeth Llyfrgelloedd am Oes a welodd ddarparu rhaglen grantiau rhwng 2008 a 2011 i foderneiddio cyfleusterau llyfrgelloedd yng Nghymru. Erbyn Mawrth 2011 bydd Gwynedd wedi gwella chwech llyfrgell - Caernarfon, Bangor, Y Bermo, Dolgellau, Nefyn, Tywyn - a gwelwyd cynnydd yn y nifer yr ymweliadau a benthyciadau eitemau, hybwyd hygyrchedd hefyd trwy gynnal gweithgareddau yn y lleoliadau ar eu newydd wedd gan gynnwys clybiau darllen oedolion i blant, sesiynau adrodd stori a chystadlaethau hybu darllen.

7. Bu Gwasanaeth Llyfrgell Gwynedd hefyd yn cydweithio gyda phartneriaid i gyfrannu at y nod o gynyddu hygyrchedd profiadau diwylliannol. Fel aelod o Bartneriaeth Llyfrgelloedd Gogledd Cymru, a gefnogir hefyd gan y rhaglen Llyfrgelloedd am Oes – cymerwyd rhan mewn rhaglen Hyfforddiant 'Frontline'. Hyfforddiant yw hyn i 'Ddatblygu darllenwyr' gyda rhaglen arbenigol paratowyd gan y 'Reading Agency' sydd yn arloesi yn y maes. Yr amcan yw hyfforddi holl staff rheng flaen llyfrgelloedd y Gogledd erbyn diwedd 2011.

8. Mae'r Gwasanaeth hefyd yn gweithio mewn partneriaeth a'r Academi gan gefnogi Cynllun Hyrwyddo Llenyddiaeth Gwynedd – gan gynnal gweithgareddau llenyddol mewn lleoliadau amrywiol gan gynnwys theatrau, orielau ac amgueddfeydd. Mae'r Cynllun yng Ngwynedd yn gyfrifol am gynnal y 'Sgwadiau Sgwennu' sydd yn hybu ysgrifennu creadigol ymysg plant a phobl ifanc gyda chefnogaeth ysgolion lleol.

9. Yn ddiweddar bu'r Gwasanaeth yn gweithio mewn partneriaeth â Chanolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd i drefnu sesiynau arbennig Bibliotherapi gyda arweinydd profiadol – gweithgarwch darllen llenyddiaeth yw hyn sydd yn cynnwys yr amcan i hybu iechyd a lles yn ychwanegol at y fwynhad o lenyddiaeth. Gobeithir ymestyn y gweithgarwch hwn yn y Gymraeg a'r Saesneg trwy'r awdurdod yn 2011.

10. Mae pob llyfrgell yng Ngwynedd yn gweithredu fel pwynt lledaenu gwybodaeth lleol gan weithredu fel pwyntiau gwybodaeth ac mae safle we y gwasanaeth yn cynnwys mynediad at gronfa data o gymdeithasau gan gynnwys grwpiau celfyddydol .

**Cwestiwn 3**

*A yw'r rhwydwaith presennol o leoliadau celfyddydol a diwylliannol yn ddigonol, ac a oes unrhyw faterion daearyddol neu faterion eraill sy'n parhau i fod yn rhwystrau o ran cymryd rhan (e.e. mewn ardaloedd gwledig neu ardaloedd difreintiedig)?*

1. Mae prinder gofod arddangos celf yn bodoli yng Ngwynedd ac mae bygythiad i theatrau yn y sir gyda cholli Theatr Gwynedd (er gobeithir y bydd y cyfleoedd yn ehangu yn sgil agor canolfan “Pontio” ym Mangor) ac o bosib Theatr Harlech. Mae rhai canolfannau celfyddydol wedi dyddio ac angen buddsoddiad er mwyn ehangu apêl a hwyluso mynediad i bawb. Anhawster mwyaf Gwynedd yw ei daearyddiaeth ar gost o ddarparu gwasanaethau mewn ardal wledig ar wasgar - nid diffyg brwdfrydedd am y celfyddydau.

2. Mae prisiau llogi gofod megis stiwdios a neuaddau mewn rhai canolfannau yn ddrud ar gyfer grwpiau cymunedol.

3. Er bod gan Amgueddfa Gwynedd rôl sirol, ar hyn o’r bryd mae wedi ei lleoli ym Mangor, felly gall hyn greu anawsterau wrth gyrraedd cynulleidfaoedd yn ne a gorllewin y sir. Mae angen gwaith i gryfhau’r apêl i’r amgueddfa ar draws y sir ac ar hyn o’r bryd mae gwaith yn mynd rhagddo i geisio gwneud hyn.

4. Yn ystod y blynyddoedd diweddar gwelwyd nifer o leoliadau ac atyniadau celfyddydol a diwylliannol yn cael eu sefydlu yn yr ardal, ond mae angen bod yn ofalus gan nad oes modd cynnal gormodedd o safleoedd h.y. nid oes modd a ni ddylid annog cael amgueddfa ymhob tref / cymuned. Mae cynaladwyedd sefydliadau a lleoliadau o’r fath yn her enfawr i nifer yn y sector diwylliant, treftadaeth a chelfyddydol – yn enwedig yn dilyn y wasgfa ariannol.

5. Yn y maes celfyddydol mae angen canolfannau o safon sydd ar gael ar gyfer lefelau gwahanol o fewn y gymuned artistig e.e. cymunedol, amatur, proffesiynol. Rydym yn credu bod orielau a neuaddau / theatrau Cyngor Gwynedd, sydd mewn ardaloedd gwledig a threfol, yn cyfrannu at hyn ac ar hyn o bryd maent yn cynnig cyfleoedd i artistiaid, i’r cyhoedd a’r gymdeithas fwynhau a chymryd rhan yn y maes celfyddydol. Ond eto fe all toriadau cyllidol gael effaith ar hyn yn y dyfodol.

6. O ran y gwasanaeth archifai, yn naturiol mae yna rwystrau wrth gynnal gwasanaeth mewn sir fawr wledig a hynny gyda nifer fechan o staff ond drwy roi sgyrsiau yn y cymunedau a chymeryd rhan mewn cymdeithasau amrywiol mae’r gwasanaeth yn cadw mewn cysylltiad agos â’r cymunedau y mae yn ei gwasanaethu. Hefyd mae safle we sy’n cynnwys manylion am y gwasanaeth a’i chasgliadau, sydd hefyd yn cynnwys catalog ar-lein yn gam tuag at ddiwallu unrhyw rwystrau daearyddol.

**Cwestiwn 4**
*Beth fydd effaith Adolygiad Buddsoddi Cyngor y Celfyddydau ar y rhwydwaith o leoliadau a gweithgareddau diwylliannol ledled Cymru? A ydych yn ystyried y bydd penderfyniad Cyngor y Celfyddydau i roi’r gorau i ariannu 32 o sefydliadau, o ganlyniad i’r Adolygiad Buddsoddi, yn effeithio’n sylweddol ar hygyrchedd lleoliadau neu weithgareddau diwylliannol? A yw canolbwyntio’r arian yn osgoi iddo gael ei ddosbarthu’n rhy denau, a chyflawni ychydig?*

1. Yng Ngwynedd bydd sgil effeithiau canlyniadau'r adolygiad yn cael eu teimlo trwy'r diffyg ariannu yn Theatr Harlech a bydd rhai o'n cynlluniau celf gyhoeddus yn cael eu heffeithio yn sgil diddymiad Safle. Bydd y sir hefyd yn gweld colled cwmnïau megis Theatr Hijinx.

2. Bydd canlyniadau'r effaith ar Theatr Harlech a chwmnïau fel Hijinx yn cael effaith ar y ddarpariaeth celfyddydau perfformio yng Ngwynedd. Bydd hyn yn taro cefn gwlad Cymru ac yn cynnig llai o gyfleoedd i glywed perfformiadau yn y Gymraeg. Ar hyn o'r bryd mae prosiect 'Cytser' yn cael ei drafod i geisio gwella'r ddarpariaeth yn ne'r sir ond mi fydd colli theatr yn ergyd i'r ardal. Roedd cwmni Hijinx yn dda am deithio i leoliadau cymunedol felly bydd colli grant refeniw yn eu taro'n galed.

3. Er bod Cyngor Gwynedd yn cefnogi'r egwyddor o hybu prif ganolfannau a 'hubs', nid yw'r cysyniad hwn yr un mor ymarferol mewn ardaloedd gwledig sydd ar wasgar. Er bod canolbwyntio arian yn osgoi dosbarthu adnoddau yn rhy denau, rhaid cofio bod darpariaeth celfyddydol yr un mor bwysig mewn ardaloedd gwledig ar wasgar a dylid sicrhau cyfleoedd a chyfleusterau yr un mor arloesol, modern a chyffroes i boblogaeth wledig a threfol trwy rwydweithiau o ganolfannau a gwasanaethau.

**Cwestiwn 5**

*Ni fydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi cyllideb Cyngor y Celfyddydau ar gyfer 2011-2012 tan fis Rhagfyr 2010. Pa effaith a gaiff gostyngiad yng nghyllideb Cyngor y Celfyddydau ar hygyrchedd gweithgareddau diwylliannol a chelfyddydol yng Nghymru yn eich barn chi?*

1. Bydd yn gyfnod anodd i'r celfyddydau ac mae sgil effeithiau'r toriadau presennol heb sôn am rai'r dyfodol yn dechrau amlygu eu hunain wrth i rai cydweithwyr yn y maes golli swyddi.
   Mae llawer o gefnogaeth ar hyn o'r bryd i wirfoddolwyr gyfrannu i'r sector, ac wrth gwrs mae lle i hyn, ond ni ddylid gwneud hyn ar draul ansawdd a sicrhau gwasanaethau o safon.
   Os oes torri pellach rhagwelir toriadau pellach i Asiantaeth Gelfyddydol Ysgolion Gwynedd a Môn, sydd eisoes wedi derbyn toriad o 20% yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

2. Mae Cyngor Gwynedd yn datgan pryder y bydd y gostyngiad hwn yn arwain at golli mwy o gwmnïau / theatrau / swyddi / elfennau proffesiynol. Pryderir yn ogystal y gallai ffocws ar ganolfannau mewn trefi mawr ar draul eraill, greu awyrgylch elitaidd i'r celfyddydau a chael effaith negyddol ar gwmnïau a safleoedd efallai sydd ddim mor uchel eu proffil, yn enwedig mewn ardal wledig.

3. Dylid nodi nad yw safleoedd Cyngor Gwynedd yn derbyn cyllid refeniw gan CCC ond fel nodir uchod mae toriadau i lefydd eraill yn cael effaith ar y gwasanaethau. Os bydd effaith ar gyllideb CCC yn arbennig yn y gogledd gall hyn arwain at newid - a phryderir y gallai hyn arwain at fwy o ganoli yng Nghaerdydd.

**Cwestiwn 6**

*A oes gennych unrhyw bryderon am yr amrywiaeth yn ystod ac ansawdd gwasanaethau a gweithgareddau diwylliannol awdurdodau lleol ledled Cymru? A oes gan awdurdodau lleol ddigon o adnoddau i ariannu a chynorthwyo gweithgareddau diwylliannol yn gyson yn yr hinsawdd economaidd bresennol?*

1. Yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni, mae pwysau cynyddol ar gyllidebau cynghorau lleol a'r sector gyhoeddus yn gyffredinol ac mae hyn yn creu anawsterau wrth gynorthwyo ac ariannu gweithgareddau diwylliannol. Mae toriadau eisoes wedi effeithio ar wasanaethau Cyngor Gwynedd, a chan nad yw'r celfyddydau yn wasanaeth statudol mae'n rhoi'r gwasanaeth mewn sefyllfa wannach.

2. Fel sydd eisoes wedi ei grybwyll, bydd canlyniadau adolygiad y Gweithgor Gwella i ddarpariaeth gwasanaethau treftadaeth a'r celfyddydau yng Ngwynedd yn cynnig argymhellion ar y ddarpariaeth yn y dyfodol; gallai hyn olygu toriadau a newidiadau arloesol i'r ffordd yr ydym yn darparu gwasanaethau.

3. Mae'n wir nodi bod gwasanaethau yn amrywio o sir i sir, gyda rhai siroedd yn cyflogi Swyddogion Datblygu'r Celfyddydau ac yn cefnogi amgueddfeydd ac orielau, tra nad yw eraill yn gwneud. Gallai cysondeb gael ei weld fel y ddarpariaeth ddelfrydol, ond wedi deud hynny, mae'n rhaid i bob sir ymateb i'r galw a'r anghenion sy'n bodoli yn lleol a ni chredir bod yr un gwasanaeth o reidrwydd yn berthnasol i bob sir. Mae trafodaethau yn parhau ar lefel gogledd Cymru ar gydweithio'n rhanbarthol ym maes y celfyddydau a threftadaeth, ond mae'r trafodaethau hyn, ar hyn o'r bryd yn rai cychwynnol iawn.

**Cwestiynau 7, 8, 9, 10 – Arolwg Omnibus Cyngor Celfyddydau Cymru, 2008**

1. Mae Cyngor Gwynedd yn cydnabod bod elfen elitaidd yn medru bodoli ym myd y celfyddydau a bod rhai aelodau o'n cymdeithas yn gweld y celfyddydau fel rhywbeth moethus ac o bosib yn elitaidd. Mae hyn yn broblem i'r maes ac mae gan yr holl sector gyfrifoldeb i hyrwyddo'r maes fel rhywbeth sy'n cyfrannu'n helaeth at gymdeithas e.e. drwy weithio ym meysydd megis iechyd, adfywio ac addysg.

2. Mae Uned Celfyddydau Cymunedol Cyngor Gwynedd yn cydweithio a grwpiau penodol gan dargedu aelodau o'r gymdeithas na fuasai fel arfer yn ymgymryd â'r celfyddydau i gymryd rhan yn eu cynlluniau.

3. Mae orielau, amgueddfeydd ac archifdai Gwynedd hefyd yn gweithio gyda rhai grwpiau penodol o fewn y gymdeithas er mwyn ehangu apêl a darparu gwasanaeth, e.e. y gymuned Tsieineaidd ym Mangor, y gymuned Iddewig, bobl hŷn ayb.

**Cwestiwn 11**

*A ydych yn ymwybodol o unrhyw amrywiadau arwyddocaol eraill ym mhresenoldeb a chyfranogiad y cyhoedd mewn gweithgareddau celfyddydol a diwylliannol (er enghraifft, yn seiliedig ar gefndir ethnig, anableddau, lleoliad mewn ardal drefol neu wledig)?*

1. Fel sydd eisoes wedi ei nodi, oherwydd natur wledig ac ymylol Gwynedd mae trafnidiaeth a phellter o brif ganolfannau yn ffactor sylweddol wrth gysidro presenoldeb a chyfranogiad y cyhoedd. Yn ogystal, mae diffyg trafnidiaeth gyhoeddus mewn rhai ardaloedd, felly mae hyn yn achosi anawsterau ychwanegol.

**A hoffech wneud unrhyw sylwadau pellach ar hygyrchedd gweithgareddau celfyddydol a diwylliannol yng Nghymru?**

1. Mae Cyngor Gwynedd yn credu bod buddsoddiad yn y meysydd yma yn hanfodol ar gyfer parhau a’r gwaith da sydd wedi dechrau dwyn ffrwyth. Yn sgil yr angen i wneud arbedion a thoriadau mewn cyllidebau, a diffyg rôl statudol i’r celfyddydau a’r amgueddfeydd, maent mewn sefyllfa fregus.

2. Mae hi hefyd yn bwysig cydnabod bod budd economaidd yn dod i’r ardaloedd lle mae archifdai, amgueddfeydd, llyfrgelloedd, neuaddau / theatrau ac orielau ac mae digwyddiadau fel ‘Helfa Gelf’ a gwyliau cerddorol neu ddiwylliannol yn dod a llawer o gyfleoedd i’r artistiaid, y cymunedau lleol, ymwelwyr ac i fusnesau eraill yn yr ardal.